

Llawlyfr hawdd yn egluro sut i gofrestru i bleidleisio ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu.



Dechrau nawr >

Bydd y llawlyfr hwn yn eich helpu i gofrestru i bleidleisio gan ddefnyddio gwefan y Llywodraeth drwy glicio ar y ddolen hon:

<https://www.gov.uk/register-to-vote>

Drwy gofrestru i bleidleisio gallwch bleidleisio mewn etholiadau lleol, etholiadau cyffredinol a refferenda.

Mae gan bobl sydd ag anabledd dysgu yr un hawl i bleidleisio â phawb arall.

Dim ond unwaith mae angen ichi gofrestru ond os byddwch yn symud tŷ bydd angen ichi gofrestru eto a rhoi eich cyfeiriad newydd.

Os ydych eisiau gwneud cais ar-lein i gofrestru i bleidleisio, cliciwch y botwm gwyrdd 'Dechrau rŵan'.

Dechrau nawr >

Cyn i chi ddechrau

Gallwch hefyd [gofrestru drwy'r post \(PDF, 991KB\)](#). Mae yna ffurflen wahanol i [gofrestru i bleidleisio trwy'r post yng Ngogledd Iwerddon](#).

Does dim modd i chi gofrestru i bleidleisio os ydych chi yn y DU yn anghyfreithlon.

Ble rydych chi'n byw?

Lloegr

Yr Alban

Cymru

Gogledd Iwerddon

neu

Dinesydd Prydeinig yn byw mewn gwlad arall (heblaw Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw)

Parhau

Beth yw eich cenedligrwydd?

Dewiswch yr holl opsiynau sy'n berthnasol i chi.

Prydeinig (gan gynnwys Saeson, Albanwyr, Cymry a phobl Gogledd Iwerddon)

Gwyddelig (yn cynnwys Gogledd Iwerddon)

Dinesydd gwlad arall

► [Help gyda chenedligrwydd](#)

Parhau

Os ydych eisiau cofrestru drwy'r post, cliciwch y ddolen las 'cofrestru drwy'r post' o dan y botwm gwyrdd 'Dechrau rwan'.

Lle ydych chi'n byw?

Cliciwch y rhan o'r DU yr ydych yn byw ynddi. Wedyn cliciwch ar y botwm gwyrdd 'Parhau'.

Beth yw eich cenedligrwydd?

Cliciwch ar y dewis sy'n eich disgrifio. Wedyn cliciwch ar y botwm gwyrdd 'Parhau' isod.

Beth yw eich dyddiad geni?

Diwrnod Mis Blwyddyn

Er enghraifft: 31 3 1970

► [Help gyda dyddiad geni](#)

Parhau

Beth yw eich enw llawn?

Rhowch bob un o'ch enwau yn llawn – nid y llythrennau cyntaf yn unig

Enw cyntaf

Enwau canol

Cyfenw

Ydych chi erioed wedi newid eich enw? Er enghraifft drwy briodas, gweithred newid enw

Na, nid wyf wedi newid fy enw

Do, rwyf wedi newid fy enw

Mae'n well gen i beidio dweud

Parhau

Beth yw eich dyddiad geni?

Rhowch eich dyddiad geni yma.

Wedyn cliciwch ar y botwm gwyrdd 'Parhau'.

Beth ydy eich enw llawn?

Teipiwch eich enw cyntaf yn y blwch 'Enw cyntaf'. Os oes gennych enw canol, teipiwch hwnnw yn y blwch 'Enw canol'. Wedyn teipiwch eich enw olaf yn y blwch 'Enw olaf'.

Os ydych wedi newid eich enw (wrth briodi, er enghraifft) dewiswch y blwch 'Ydw, rydw i wedi newid fy enw' a rhowch eich enw blaenorol yn y blychau isod. Gallwch ddewis y blwch 'Mae'n well gen i beidio â dweud' ond efallai y bydd y Llywodraeth yn gofyn ichi ddangos tystiolaeth i wirio eich enw.

Wedyn cliciwch ar y botwm gwyrdd 'Parhau'.

Beth yw eich rhif Yswiriant Gwladol?

Enghraifft: QQ 12 34 56 C

► [Nid wyf yn gwybod fy rhif Yswiriant Gwladol](#)

Parhau

Beth yw eich cyfeiriad?

Rhowch god post lle'r ydych yn byw ac ym mhle'r hoffech chi gofrestru i bleidleisio.

Cod post

Chwilio am gyfeiriad

► [Dydw i ddim yn gwybod pa god post i'w ddefnyddio](#)

Ydych chi'n byw mewn ail gyfeiriad hefyd?

Nac ydw

Ydw, rwy'n byw mewn dau gartref

Ydw, rwy'n fyfyrwr â chyfeiriad cartref a chyfeiriad yn ystod y tymor.

Parhau

Beth yw eich rhif Yswiriant Gwladol?

Teipiwch eich rhif Yswiriant Gwladol yn y blwch. Gallwch ffeindio eich rhif Yswiriant Gwladol ar eich slip cyflog neu ar lythyrau oddi wrth y Llywodraeth am fudd-daliadau, treth neu bensiwn.

Beth yw eich cyfeiriad?

Teipiwch eich cod post yn y blwch a cliciwch 'Ffeindio'r cyfeiriad'. Yna cliciwch ar y blwch a dewiswch eich cyfeiriad oddi ar y rhestr. Wedyn cliciwch ar 'Parhau'.

Ydych chi'n byw mewn cyfeiriad arall hefyd?

Os ydych yn byw mewn un lle, cliciwch 'Na'. Wedyn cliciwch y botwm 'Parhau'.

Os ydych yn byw mewn dau le, cliciwch 'Ydw, rydw i'n byw mewn dau gyfeiriad'. Wedyn cliciwch y botwm 'Parhau'.

Os ydych yn byw mewn dau gyfeiriad, gallwch gofrestru i bleidleisio yn y ddau gyfeiriad drwy lenwi'r ffurflen eto wedi ichi orffen llenwi'r ffurflen hon.

[ôl](#)

Ydych chi wedi symud yn barhaol o gyfeiriad arall yn y 12 mis diwethaf?

Byddwn yn tynnu manylion eich cyfeiriad blaenorol oddi ar y gofrestr. Felly, peidiwch â rhoi cyfeiriad oni bai eich bod wedi symud allan yn barhaol.

Nac ydw

Ydw, o gyfeiriad yn y DU

Ydw, o dramor

Parhau

[Yn ôl](#)

Ydych chi am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cynnwys ar y gofrestr agored?

Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond nid yw'n cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw unigolyn, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, mae'n cael ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enwau a chyfeiriadau.

Ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio neu'ch sgôr gredyd.

Nac ydw, nid wyf am i'm manylion gael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

[Pam mae dwy gofrestr?](#)

Parhau

Ydych chi wedi gadael cyfeiriad arall yn ystod y 12 diwethaf?

Os ydych chi wedi symud i mewn i gartref newydd yn y flwyddyn ddiwethaf bydd yn rhaid ichi ddarparu eich hen gyfeiriad.

Cliciwch 'Do, o gyfeiriad yn y DU' ac yna cliciwch ar 'Parhau'.

Wedyn teipiwch eich cod post a chlicio 'Ffeindio cyfeiriad' ac wedyn cliciwch ar y blwch i ffeindio rhif eich hen gartref.

Os nad ydych chi wedi symud i gartref newydd yn y flwyddyn ddiwethaf cliciwch 'Naddo'. Wedyn cliciwch ar y botwm 'Parhau'.

A ydych chi eisiau cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad ar y gofrestr agored?

Mae'r gofrestr agored yn gadael i sefydliadau a busnesau brynu rhestrau o enwau a chyfeiriadau.

Os nad ydych chi eisiau bod ar y rhestrau hyn, cliciwch 'Nac ydw, tydw i ddim eisiau rhoi fy enw a fy nghyfeiriad ar y gofrestr agored'.

Os ydych chi eisiau bod ar y gofrestr agored, cliciwch 'Parhau' yn unig.

◀ Yn
ôl

Ydych chi am wneud cais am bleidlais drwy'r post?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Ond os yw'n well gennych bleidleisio drwy'r post, gallwn anfon ffurflen gais atoch.

Nac ydw, mae'n well gennyf bleidleisio'n bersonol

Nac ydw, mae gennyf bleidlais bost eisoes

Ydw, anfonwch ffurflen gais pleidlais bost ataf

▶ [Beth yw pleidlais drwy'r post?](#)

Parhau

◀ Yn ôl
at y
cwestiwn

Aid chi yw'r unig un 16 oed neu hŷn sy'n byw yn eich cyfeiriad presennol?

Talwrn, Llangoed, Beaumaris, Isle Of Anglesey
LL588PE

Ie

Nage

Ddim yn siŵr

Mae'n well gen i beidio dweud

▶ [Pam rydych chi'n gofyn y cwestiwn hwn?](#)

Parhau

Ydych chi eisiau gwneud cais am bleidlais drwy'r post?

Os ydych eisiau pleidleisio drwy'r post, cliciwch 'Ydw, anfonwch ffurflen gais am bleidlais bost ataf'. Wedyn bydd yn rhaid ichi ddewis cael y ffurflen drwy e-bost neu drwy'r post.

Os oes gennych bleidlais bost yn barod, cliciwch 'Nac ydw, mae gen i bleidlais bost yn barod'.

Os ydych eisiau pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, cliciwch 'Nac ydw, mae'n well gen i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio'. Cofiwch y gellwch newid eich meddwl a dewis pleidleisio drwy'r post rywdro eto.

Ar ôl ichi ddewis sut yr ydych eisiau pleidleisio, cliciwch 'Parhau'.

Oes yna unrhyw un arall 16 oed neu hŷn, (14 oed neu hŷn yn yr Alban), yn byw yn y cyfeiriad hwn?

Os oes yna bobl eraill dros 16 oed, (dros 14 yn yr Alban), yn byw yn eich cartref, cliciwch 'Oes'.

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun neu os ydy'r bobl eraill yn eich cartref o dan 16 oed, (14 oed yn yr Alban), cliciwch 'Nac oes'.

Os nad ydych yn gwybod, cliciwch 'Tydw i ddim yn siŵr'.

Os nad ydych eisiau dweud, gallwch

Os bydd gennym gwestiynau am eich cais, beth yw'r ffordd orau o gysylltu â chi?

Nodwch gyfeiriad e-bost os hoffech dderbyn cadarnhad o'ch cofrestrriad drwy e-bost.

E-bost

Galwad Ffôn

Post

Parhau

Anfon eich cais

Drwy anfon eich cais rydych yn cadarnhau fod y wybodaeth a ddarperir gennych yn wir.

Efallai caiff eich gwybodaeth ei rhannu gydag adrannau eraill y Llywodraeth I wirio eich hunaniaeth a bod gennych hawl i bleidleisio.

Gallwch hefyd ganfod mwy am [sut rydym yn trin eich data](#).

! Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anwir yn eich cais gan wybod hynny, efallai y cewch ddedfryd o garchar am hyd at 6 mis, neu ddirwy.

Yr wyf yn derbyn - anfon fy nghais



Cabinet Office

photosymbols®

glicio 'Mae'n well gen i beidio â dweud'.

Wedyn cliciwch y botwm gwyrdd 'Parhau'.

Os bydd gennym unrhyw gwestiynau am eich cais, sut fyddai orau inni gysylltu â chi?

Mae'n rhaid ichi ddewis o leiaf un opsiwn ar y dudalen hon.

Dewiswch sut rydych eisiau inni gysylltu â chi ac wedyn teipiwch eich e-bost neu eich rhif ffôn os ydych wedi dewis y rheiny. Wedyn cliciwch 'Parhau'.

Gwnewch yn siŵr fod eich atebion yn gywir cyn anfon eich cais

Evch drwy'r dudalen eto i wneud yn siŵr fod eich atebion yn gywir. Os oes yna gamgymeriad, cliciwch ar y blwch 'Newid' wrth ochr yr ateb yr ydych eisiau ei newid. Bydd hyn yn agor tudalen newydd lle gallwch gywiro'r camgymeriad.

Os ydy eich atebion yn gywir, cliciwch 'Rwy'n derbyn – anfon fy nghais'. Unwaith y byddwch wedi clicio'r botwm hwn byddwch wedi gorffen eich cais.

Ysgrifennwyd y llawlyfr hwn ar y cyd gan Mencap a Swyddfa'r Cabinet.

Darparwyd y delweddau gan Photosymbols.